


Comisiwn Bevan Commission

# Adwaith Cadwynol

## Rheoli llif cleifion ar draws systemau a gwasanaethau iechyd a gofal

Crynodeb Gweithredol

**Mehefin 2026**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r papur hwn yn ymchwilio i'r heriau, yr achosion, y canlyniadau a'r atebion ynghylch llif cleifion gwael mewn systemau iechyd a gofal. Mae'n casglu amrywiaeth o atebion arloesol ar sail tystiolaeth ynghyd i optimeiddio'r broses o gyflwyno gofal mewn modd mwy darbodus, effeithiol ac effeithlon.

Cyfeiria llif cleifion at ***symud cleifion, adnoddau a gwybodaeth yn effeithlon drwy lwybrau gofal i flaenoriaethu'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf ac i wella canlyniadau a phrofiadau.***

## Achosion a heriau allweddol

- **Diffyg goruchwyliaeth strategol:** mae hyn yn arwain at ymagweddau ynysig a system a gweithlu aneffeithiol a defnyddio gwasanaethau'n aneffeithiol, gwastraff a niwed.

- **Diffyg ymgysylltu â chleifion a thanddefnyddio cymorth hunanofal:** mae hyn yn arwain at gostau uwch, cynnydd clefyd cyflymach a chynnydd mewn amlafiachedd.

- **Pwysau demograffig ac ymateb i'r galw cynyddol:** mae hyn yn gorlwytho'r gwasanaethau brys a diagnostig, gan gynyddu amserau aros a lleihau boddhad cleifion.

- **Aneffeithlonrwydd ac oediadau trafnidiaeth:** mae hyn yn cyfrannu at adrannau brys gorlawn, amserau ymateb ambiwlansys arafach a gofal a chanlyniadau gwaeth i gleifion.

- **Cyfyngiadau ar ofal cymdeithasol a phreswyl:** mae hyn yn arwain at arosiadau hir yn yr ysbyty, costau uwch, nifer uchel o gleifion mewn gwelyau a chanlyniadau gwaeth i gleifion.

- **Prinder staff:** mae hyn yn arwain at ddiffygiad, aneffeithlonrwydd, trosiant a chostau uchel.

- **Ymyriadau amhriodol a diangen (annoeth):** mae hyn yn gwastraffu adnoddau, amser, arbenigedd ac mae'n peryglu diogelwch cleifion.

## Canlyniadau

Mae'r heriau hyn, ar y cyd â phandemig COVID-19 a phwysau economaidd, yn arwain at systemau a gwasanaethau anghynaliadwy na allant ddiwallu anghenion pobl nawr, heb sôn am ateb y galw cynyddol ar y system yn y dyfodol.

Maent yn gwaethygu aneffeithlonrwydd systemig, gofal rhanedig, amrywiaeth di-alw-amdano a chanlyniadau anfwriadol sy'n arwain at ganlyniadau gwaeth i gleifion, staff a'r system iechyd a gofal yn gyffredinol. Bydd angen atebion cyfannol, integredig a thrawsnewidiol, gan weithio mewn partneriaeth â phobl a gweithwyr proffesiynol ym mhob rhan o'r system.

## Ymagweddau ac Atebion Arfaethedig

Dylai ymagwedd gynhwysfawr, sy'n cyfuno technegau methodoleg wedi'i symleiddio â gweithdrefnau meddwl yng nghyd-destun systemau alluogi dealltwriaeth o brif elfennau llif system er mwyn lleihau amserau aros a rhwystrau, gwella diogelwch cleifion, a defnyddio adnoddau lle maent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf.

### 1. Atal y llif:

- Mae iechyd yn gyfrifoldeb cyffredin, sy'n mynd y tu hwnt i'r GIG ac sy'n berthnasol i lywodraeth leol, y gweithle a chymunedau/sefydliadau cymunedol ehangach. Drwy fynd i'r afael â llythrennedd iechyd, atal ac ymyrryd yn gynnar, gellir lleihau galw diangen am wasanaethau clinigol. Bydd strategaethau cyfathrebu effeithiol yn allweddol o ran hynny.

- Gall gwasanaethau a chymorth megis telefonitro, hunan-reoli ac offer digidol eraill (e.e. Rhaglen Addysg i Gleifion (EPP) ac offer risg rhagfynegol), presgripsiynu cymdeithasol a rhwydweithiau cymorth cymunedol helpu unigolion i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn well a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau gofal ffurfiol a'r galw amdanynt.

### 2. Cyfeirio'r llif:

- Cyfathrebu a defnyddio data'n effeithiol i helpu i ddeall anghenion pobl (gan gynnwys gwella rhannu data ar draws y system) i lunio a thargedu gwasanaethau yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol (gofal, lleoliad ac amser priodol).

- Gall mentrau megis siopau un stop, Pwynt Cyswllt Unigol a mynediad symlach at wasanaethau, ar y cyd â chyfathrebu effeithiol, leihau derbyniadau diangen i'r ysbyty ac optimeiddio'r defnydd o adnoddau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion cleifion.

- Ehangu gofal canolraddol integredig Camu i'r Adwy Cyn Camu Yn Ôl, adsefydlu a dileu rhwystrau o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty'n brydlon.

## 3. Llywio'r llif:

- Mae lleisiau cleifion yn hanfodol, gan roi mewnwelediad a phrofiad byw pobl i'n helpu i lunio gwasanaethau ar y cyd fel eu bod yn diwallu eu hanghenion yn y ffordd orau bosib.

- Mae data amser go iawn ac atebion digidol yn hanfodol wrth gefnogi llwybrau effeithlon i gleifion a sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng timau gofal. Mae hyn yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau, gwella canlyniadau cleifion a chyflwyno gwasanaethau'n effeithlon.

- Mae systemau TG sy'n galluogi rhyngweithio a rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr gofal yn hanfodol ar gyfer optimeiddio cyflwyno gwasanaethau a sicrhau bod gan gleifion fynediad a'u bod yn cael gofal priodol mewn da bryd.


## 4. Sicrhau'r llif:

- Mae monitro perfformiad systemau'n barhaus, mesurau perfformiad allweddol, rhannu gwybodaeth a mynd i'r afael â thagfeydd yn hanfodol ar gyfer sicrhau llif cleifion didrafferth. Gall mentrau wedi'u targedu megis Getting it Right First Time (GIRFT) a chydweithrediad ar draws sectorau wella canlyniadau cleifion.

- Gall modelau ariannol a chontractio arloesol gymell gwaith tîm gwell gyda chyllidebau a rennir, cydatebolrwydd a defnyddio adnoddau mewn modd mwy effeithlon drwy gysoni cynllunio, lleihau pwysau ar wasanaethau a gwella canlyniadau cleifion.

Yn gryno, mae angen trawsnewid y system gyfan ac ystyried pobl, cynllunio a chyflwyno gwasanaethau mewn modd cyfannol i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio'n fwyfwy ar atal problemau rhag datblygu a model iechyd bioseicogymdeithasol, defnyddio adnoddau digidol a data'n fwy effeithiol a chydlynu'r system gyfan yn well ar draws y saith elfen allweddol a amlinellir isod.

**Ffigwr 1** Saith elfen allweddol gyda chysylltiadau ag arferion da, astudiaethau achos ac arweiniad




## Argymhellion ar gyfer gwella llif cleifion

Mae angen i randdeiliaid allweddol gydweithio a chysoni eu hymdrechion i sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal yn hygyrch, yn effeithlon ac yn diwallu anghenion y boblogaeth drwy ddilyn y canlynol:

- **Llwybrau Iechyd a Gofal Hyblyg:** mae'r rhain yn galluogi cyfnodau pontio didrafferth ar

sail anghenion gofal iechyd a chymdeithasol cleifion mewn sefydliadau a rhyngddynt, wedi'u cefnogi gan dimau cydweithredol ac amlddisgyblaethol.

- **Integreiddio systemau a gwasanaethau:** datblygu strategaethau cyfannol sy'n diwallu anghenion cleifion ar yr un pryd â chyrraedd nodau systemau neu wasanaethau (yn lleol ac ar lefel uwch) drwy ddadansoddi data amser go iawn a modelu rhagfynegol.

- **Defnyddio adnoddau mewn modd darbodus ac arloesol:** optimeiddio'r defnydd o adnoddau, drwy gynnwys cleifion er enghraifft, ac asedau lleol eraill a gofal yn seiliedig ar le i wella tegwch a hygyrchedd.

- **Monitro a chyflwyno ar y cyd:** gwella tryloywder, cydlynu a chynllunio cyfannol hirdymor i symud y tu hwnt i ddarparu gofal adweithiol, rhanedig i wella canlyniadau i bobl.

## Ystyriaethau ar gyfer y dyfodol

Mae atebion darbodus a chynaliadwy'n gofyn i ni symud i ffwrdd o ymagweddau ynysig ac anhyblyg ac ystyried yn hytrach systemau a gwasanaethau integredig a sbardunir gan ddata ac sy'n canolbwyntio ar gleifion.

Mae partneriaethau a chydweithredu, atebolrwydd a rennir a chanolbwyntio ar atal ymyriadau ac oedi diangen yn hanfodol wrth sicrhau llif cleifion darbodus, effeithiol a theg.

Mae'r papur hwn yn amlygu cyd-ddibyniaethau pob rhan o'r system a sut mae'r rhannau yn effeithio ar ei gilydd. Mae'n pwysleisio'r angen brys am gynllunio a thrawsnewid ar draws y system gyfan sy'n seiliedig ar ddiwallu anghenion cleifion. Drwy wella pob rhan o ofal, gallwn ni leihau aneffeithlonrwydd, gwella canlyniadau a diwallu anghenion newidiol pobl yn well, nawr ac yn y dyfodol.

Comisiwn
Bevan
Commission

Yr Ysgol Reolaeth,
Prifysgol Abertawe, Campws y Bae,
Ffordd Fabian, Abertawe SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630